Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: £100,000 i £250,000

Ariannu– Grantiau o £100,000 i £250,000

Pwysig

Mae grantiau'r Loteri Genedlaethol ar gyfer treftadaeth ar gau i geisiadau newydd tan 2021. Darllenwch fwy am ein rhaglenni ariannu

Pwy all ymgeisio

Gallwch ymgeisio am grant o £100,000 i £250,000 os ydych yn:

- sefydliad di-elw
- partneriaeth dan arweiniad sefydliad di-elw

Sut i ymgeisio

Darllenwch y canllawiau hyn cyn i chi wneud cais am grant. Mae'r canllawiau'n dweud mwy wrthych chi am y rhaglen grant £100,000 i £250,000 a'r mathau o brosiectau y gallwn ni eu hariannu.

Os hoffech gymorth i ddatblygu eich syniad cyn i chi ddechrau eich cais llawn, gallwch gyflwyno ffurflen ymholiad prosiect.

1. **Darllenwch y dudalen yma**

   Dilynwch y camau hyn a darllenwch y dudalen gyfan. Yn gyntaf, bydd angen i chi:

   - darllen am beth rydym yn ei ariannu
   - dysgu am canlyniadau

2. **Creu cyfrif**

   Er mwyn ymgeisio bydd angen i chi ddefnyddio ein porth ymgeisio, os nad oes gennych gyfrif eto, bydd angen i chi:

   - creu cyfrif ar y porth ymgeisio

3. ## Penderfynu ar bryd i ymgeisio

   Mae'r dyddiadau cau ar gyfer gwneud cais wedi'u pennu ymlaen llaw.

   Cyflwynwch eich cais llawn drwy ein porth ymgeisio ar-lein erbyn:

   - 19 Tachwedd 2019, hanner dydd (12pm) i dderbyn penderfyniad erbyn diwedd Mawrth 2020
   - 2 Mawrth 2020, hanner dydd (12pm) i dderbyn penderfyniad erbyn diwedd Mehefin 2020
   - 1 Mehefin 2020, hanner dydd (12pm) i dderbyn penderfyniad erbyn diwedd Medi 2020
   - 1 Medi 2020, hanner dydd (12pm) i dderbyn penderfyniad erbyn diwedd Rhagfyr 2020
   - 23 Tachwedd 2020, hanner dydd (12pm) i dderbyn penderfyniad erbyn diwedd Mawrth 2021

   Sicrhewch bod dyddiad dechrau eich prosiect yn ddyddiad hwyrach na dyddiad y penderfyniad.

4. ## Cynllunio eich cyfraniad ariannol

   Os ydych yn gwneud cais am rhwng £100,000 a £250,000 bydd angen i chi gyfrannu o leiaf 5% o gostau eich prosiect.

   Rydym yn disgrifio'r cyfraniad yma fel 'cyllid partneriaeth' ac nid oes rhaid iddo fod ar ffurf arian parod. Gweler ein canllawiau ymgeisio am fwy o fanylion.

5. ## Ymgeisio am grant

   Byddwn yn asesu eich cais o fewn 12 wythnos ar ôl i chi ei gyflwyno. Ar ôl i ni asesu eich prosiect, caiff ei neilltuo i gyfarfod Pwyllgor chwarterol ar gyfer penderfyniad ffurfiol.

   Dogfennau i'ch cynorthwyo i ymgeisio

   - Canllawiau ymgeisio £10,000 i £250,000
     Gwybodaeth a chyngor ar sut i ysgrifennu cynnig cryf.
   - Nodiadau cymorth i ymgeisio
     Gwybodaeth ddefnyddiol i'ch helpu i gwblhau ffurflen gais ar-lein.
   - Enghraifft o ffurflen ymholi prosiect
     Ffordd dda o gael adborth gennym cyn i chi ddechrau gweithio ar gais llawn
   - Templedi cynlluniau prosiect
     Templedi ar gyfer y ffordd rydym yn eich argymell i greu cynllun ar gyfer eich prosiect
   - Telerau grant safonol
     Ein telerau ac amodau ar gyfer grantiau o £10,000 i £100,000.
   - Canllawiau arferion da
     I'ch helpu i gynllunio a darparu eich prosiect treftadaeth.
   - Adennill costau'n llawn
     Os ydych yn sefydliad yn y sector gwirfoddol, gallem helpu i dalu am rywfaint o'ch costau gorbenion.

I fwrw ati gyda'ch cais

Menwgofnodwch i'n porth ymgeisio

Ewch yn ôl i frig y dudalen

Yn yr adran yma

- Grantiau o £10,000 - £100,000
- Grantiau sy'n fwy na £250,000